



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

Cyflawni ein Strategaeth Gorfforaethol 2015/20 drwy'r  
**Cynllun Galluogi Hamdden a Mynediad Awyr**  
**Agored 2015 - 2020**



## CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD.....	2
1A. MANTEISION HAMDDEN A MYNEDIAD AWYR AGORED .....	3
MANTEISION AMGYLCHEDDOL .....	3
MANTEISION CYMDEITHASOL AC IECHYD .....	3
MANTEISION ECONOMAIDD.....	4
1B. BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL .....	5
2. SICRHAU CANLYNIADAU.....	6
2A. BETH YW'R SEFYLLFA BRESENNOL? .....	7
3. EIN FFOCWS DROS Y PUM MLYNEDD NESAF .....	9
4. CYDWEITHIO AG ERAILL .....	10
5. MONITRO A GWERTHUSO .....	10
6. ADOLYGU EIN GWAITH.....	11
ATODIAD 1: CYFEIRIADAU .....	12

### 1. Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Galluogi hwn yn cyflwyno ein hamcanion ar gyfer hamdden a mynediad awyr agored. Mae cynllun gweithredu ategol yn nodi camau gweithredu manylach. Mae gan y Cynllun Galluogi gwmpas eang - mae'n cwmpasu'r ffordd rydym yn gwneud y canlynol:

- rheoli a hwyluso'r defnydd o'n hystad ar gyfer hamdden a mynediad
- galluogi a gweithio gydag eraill i hwyluso a hyrwyddo hamdden a mynediad ledled Cymru, gan adlewyrchu ein marchnadoedd targed ac anghenion ein cynulleidfa
- rydym yn brif gynghorydd i Lywodraeth Cymru ac yn gynghorydd i ddiwydiant a'r sector cyhoeddus a gwirfoddol ehangach ar hamdden a mynediad

Rydym yn defnyddio'r term 'hamdden a mynediad awyr agored' drwy'r Cynllun Galluogi hwn. Ystyr y term yw *gweithgareddau* hamdden sy'n digwydd yn yr awyr agored a'r mynediad a'r seilwaith cysylltiedig sy'n galluogi'r gweithgaredd hwnnw i fynd rhagddo. Mae hamdden a mynediad awyr agored yn cynnwys:

- gweithgareddau ffurfiol (wedi'u trefnu) ac anffurfiol;
- profiadau egniol a goddefol (mae gweithgareddau hamdden egniol yn cynnwys, er enghraifft, seiclo neu ganwio, tra bod gweithgareddau hamdden goddefol yn cynnwys gwyllo adar neu gael picnic.

Mae'r Cynllun hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r nodau cyffredinol a nodir gan Lywodraeth Cymru ym *Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* sydd ar ddod tra hefyd yn cefnogi'r ffordd y caiff nodau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer Tlodi Plant; Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid; Coetiroedd i Gymru; Dringo'n Uwch, Teithio Llesol, Partneriaeth ar gyfer Twf a Camau Nesaf eu darparu. Mae cysylltiad agos rhyngddo hefyd â'r blaenoriaethau a nodir yn ein Cynllun Galluogi Cyfathrebu, Cynllun Galluogi Dehongli, Cynllun Galluogi Addysg a Sgiliau Sector a Chynllun Galluogi Cymunedau ac Adfywio. Dylid darllen y Cynllun ar y cyd â'r rhain gan fod llawer o'r nodau a'r camau gweithredu yn rhai trawsbynciol, sy'n dangos y synergeddau yn ein gwaith.

Wrth symud tuag at reoli adnoddau naturiol, bydd angen i ni ystyried anghenion defnyddwyr hamdden a mynediad ac unrhyw ddarpariaeth o fewn fframwaith rheoli ehangach sydd hefyd yn ystyried manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd gyda'i gilydd. Bydd cynllunio gofodol yn elfen hollbwysig o'r dull gweithredu hwn.

Mae rôl Cyfoeth Naturiol Cymru fel sefydliad galluogi yn allweddol i'r Cynllun Galluogi hwn: bydd hwyluso ac annog eraill a gweithio gyda'n partneriaid yn rhan greiddiol o'n gwaith. Fel rhan o'n gwaith, byddwn yn helpu eraill i ddarparu os mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny, ar y tir a reolir gennym neu oddi arno.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru rwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ar ein tir ein hunain, cawn ein dosbarthu fel darparwr gwasanaeth o dan y Ddeddf hon. Rydym yn gweithio gyda Diverse Cymru i ddatblygu ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Cynllun Galluogi hwn.

## 1a. Manteision hamdden a mynediad awyr agored

Mae corff mawr - a chynyddol - o dystiolaeth sy'n dangos manteision niferus hamdden a mynediad awyr agored i unigolion, i gymunedau, i'r amgylchedd ac i'r economi. Un o ffynonellau allweddol ein tystiolaeth yw Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru sy'n rhoi cyfrif cynhwysfawr o gyfranogiad pobl sy'n byw yng Nghymru. O 2015, bydd yr Arolwg hefyd yn rhoi gwybodaeth i ni am werth economaidd ymweliadau. Rydym wedi amlinellu rhai o'r manteision hyn isod.

### Manteision amgylcheddol

Drwy gymryd rhan mewn cyfleoedd hamdden awyr agored, mae pobl yn dysgu mwy am y byd naturiol ac, yn aml, yn ennyn ymdeimlad o gyfrifoldeb a gofal am yr amgylchedd a'u manau gwyrdd lleol. Yn ôl rhaglen Cydcoed, mae ymgysylltiad cymunedol â man penodol nid yn unig yn cynnig manteision iechyd i'r unigolion sy'n cymryd rhan, ond yn aml yn atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol<sup>1</sup>.

Gall cerdded a seiclo chwarae rôl allweddol wrth ddiwallu anghenion trafndiaeth lleol a helpu i fynd i'r afael â thagfeydd, llygredd a newid yn yr hinsawdd sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar gar. Mae'r hyn a nodir weithiau fel 'teithiau bob dydd' i'r gwaith ar droed neu ar feic hefyd yn bodloni gofynion ffitrwydd a mwynhau. Weithiau, gelwir y math hwn o daith yn 'teithio llesol'.

Mae ymagwedd gyson a strategol tuag at gyfleoedd hamdden a mynediad ledled Cymru yn golygu y gall effeithiau ymwelwyr gael eu lliniaru neu eu cyfeirio i ffordd oddi wrth yr ardaloedd hynny sy'n fwy agored i niwed amgylcheddol. Mae datblygu dull cyson o gynllunio cyfleoedd hamdden sy'n ystyried sensitifrwydd yr amgylchedd ac sy'n cynnig ffyrdd o'i reoli drwy annog newid mewn ymddygiad yn rhan bwysig o'n dull o reoli adnoddau naturiol.

### Manteision cymdeithasol ac iechyd

Gall cyfleoedd hamdden awyr agored wneud cyfraniad sylweddol i iechyd corfforol a lles meddyliol y boblogaeth yng Nghymru: mae cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol yn arwain at fanteision gan gynnwys cynyddu disgwyliad oes iach pobl a lleihau achosion o glefydau cronig, gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd, rhai mathau o ganser, diabetes math II ac osteoporosis. Mae bron i draean o oedolion yng Nghymru wedi gallu elwa ar y manteision iechyd sy'n gysylltiedig â gweithgarwch corfforol drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored, ac mae hyn yn dangos y cyfraniad sylweddol y gall ei wneud i iechyd y genedl.

Fodd bynnag, ceir anghydraddoldebau iechyd o fewn cymunedau yng Nghymru a rhyngddynt o hyd - amcangyfrifwyd bod anweithgarwch corfforol yn costio tua £650 miliwn bob blwyddyn i'r wlad, <sup>2</sup> tra bod disgwyliad oes iach pobl mewn Awdurdodau Unedol cyfagos yn aml yn wahanol iawn e.e. 57.1 o flynyddoedd ym Mlaenau Gwent a 68.2 o flynyddoedd yn Sir Fynwy.

Bydd un o bob pedwar oedolyn yng Nghymru yn wynebu problemau neu salwch iechyd meddwl ar ryw adeg yn eu bywyd, ac amcangyfrifir bod hyn yn costio £7.2

<sup>1</sup> Adroddiad Gwerthuso Cydcoed <http://www.forestry.gov.uk/fr/cydcoed>

<sup>2</sup> Dringo'n uwch: creu Cymru egniol gan Lywodraeth Cymru 2009

biliwn bob blwyddyn i Gymru, ond gall cyswllt goddefol â seilwaith gwyrdd<sup>3</sup> fod yn adferol o safbwynt seicolegol a ffisiolegol, gan leihau pwysedd gwaed a lefelau straen.<sup>4</sup>

Yn aml, caiff cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden awyr agored ei gyfyngu gan incwm, gallu a mynediad i gyfleoedd. Ond gall yr awyr agored gynnig cyfleoedd i bawb; a gall gwaith hyrwyddo, cyfleusterau a chyfleoedd mynediad priodol wella cynhwysiant cymdeithasol. Gall y gwaith o ddatblygu rhwydweithiau llwybrau, coetiroedd trefol a seilwaith gwyrdd arall, gyda'r nod o wella ansawdd a hygyrchedd yr amgylchedd lleol, oll chwarae rôl bwysig wrth wella iechyd a lles pobl yng Nghymru. Mae mwynhau'r awyr agored hefyd yn rhan bwysig o werthfawrogi treftadaeth ddiwylliannol a thirwedd Cymru a'i chydberthynas â'r bobl oddi mewn iddi.

### Manteision economaidd

Yn aml, mae ffyniant economaidd a chyfleoedd cyflogaeth i gymunedau a mentrau lleol yn deillio o gyfleoedd hamdden ac yn arbennig o bwysig i ardaloedd sy'n dibynnu'n economaidd ar dwristiaeth. Er enghraifft, nododd dros draean o ddarparwyr llety yng Nghymru sydd wedi'u lleoli ar Lwybr Cenedlaethol neu'n agos ato, fod y Lwybr yn 'bwysig iawn i broffidioldeb' eu busnes<sup>5</sup>.

Gall gweithgareddau hamdden awyr agored helpu i liniaru tlodi plant - mae cyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae yn cyfrannu at liniaru effeithiau negyddol tlodi ar fywydau plant ac yn helpu i feithrin eu gwydnwch a'u lles cyffredinol. Gall chwarae hefyd leihau anghydraddoldebau rhwng plant sy'n byw mewn teuluoedd a all fforddio darpariaeth hamdden gostus a'r rheini na allant ei fforddio, gan leihau'r profiad o dlodi i bob plentyn.

Mae cerdded, fel gweithgarwch, yn cynhyrchu gwerth £562m o alw ychwanegol yn yr economi yng Nghymru, £275m o Werth Ychwanegol Gros (GVA), a thua 11,980 o flynyddoedd person o gyflogaeth.<sup>6</sup> Dangosir hyn gan Lwybr Arfordir Cymru sydd, ynddo'i hun, yn cynhyrchu £32.2m o alw ychwanegol yn yr economi yng Nghymru, £16.1m o GVA, a gwaith i 730 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn<sup>7</sup>.

Cymerodd tua 2.8 miliwn o bobl yn y DU ran mewn rhyw fath o weithgarwch yn ymwneud â chychod yn ystod 2012, gan gynnwys 1.2 miliwn a aeth i ganwio<sup>8</sup>. Yn 2007, amcangyfrifwyd bod genweirio dŵr croyw ynddo'i hun yn cefnogi tua 1,500 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn<sup>9</sup>. Yn ôl Arolwg Ymwelwyr Cymru 2013, o'r rheini a ymatebodd i'r arolwg ac a ymwelodd â Chymru, naill ai o'r DU neu dramor, cafodd

<sup>3</sup> Yn gyffredinol, gellir diffinio Seilwaith Gwyrdd fel rhwydwaith wedi'i gynllunio'n strategol o ardaloedd naturiol a lled-naturiol o ansawdd da â nodweddion amgylcheddol eraill, a gynllunnir ac a reolir er mwyn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ecosystema diogelu bioamrywiaeth mewn lleoliadau gwledig a threfol, Building a Green Infrastructure for Europe, UE. Ymhellach, mae'r Sefydliad Cynllunio Gwlad a Thref yn diffinio seilwaith gwyrdd fel pob man gwyrdd a glas.

<sup>4</sup> *Preference for Nature in Urbanized Societies* gan Van den Berg et al, dyfynnwyd yn *Benefits of Green Infrastructure* gan Forest Research Hydref 2010

<sup>5</sup> Economic benefit to business of the Welsh National Trails, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2006

<sup>6</sup> The economic impact of walking and hill walking in Wales, Ysgol Fusnes Caerdydd, 2011

<sup>7</sup> Ysgol Fusnes Caerdydd (2012) The Economic Impact of Wales Coast Path Visitor Spending on Wales

<sup>8</sup> Arolwg Cyfranogi mewn Chwaraeon Dŵr 2012

<sup>9</sup> The economic impact of freshwater angling in England & Wales 2007 Asiantaeth yr Amgylchedd

30% ohonynt eu cymell i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn ystod eu hymweliad.<sup>10</sup>

At hynny, mae agosrwydd at fannau gwyrdd o ansawdd uchel yn cynyddu gwerth eiddo rhwng 2.6% ac 11.3%<sup>11</sup>; ac mae pob £1 o arian cyhoeddus a gaiff ei gwario ar brosiectau mannau gwyrdd yn denu £4.20 o fuddsoddiad gan y sector preifat, gan hybu gwaith adfywio<sup>12</sup>. Fel y nodwyd uchod, mae'r arbedion cost posibl i Gymru yn sgil mwy o gyswllt â natur a chyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden awyr agored yn sylweddol hefyd.

Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn cyfrif am dros hanner biliwn o bunnoedd o GVA Cymru, sef 1.2% o economi'r wlad. At hynny, mae 38% o'r swyddi yn y Parc yn ymwneud â'r amgylchedd. Mae economïau twristiaeth y Parciau yn gryf, gyda 12 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn yn gwario swm amcangyfrifedig o filiwn o bunnoedd ar nwyddau a gwasanaethau<sup>13</sup>.

### 1b. Blaenoriaethau corfforaethol

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith a wnawn ar hamdden a mynediad awyr agored yn dod o dan yr adran 'Yn Dda i Bobl' yn ein Cynlluniau Corfforaethol a Busnes. Fodd bynnag, mae ein gwaith hefyd 'Yn Dda i Fusnes' ac 'Yn Dda i'r Amgylchedd' ac ni ddylid tanamcangyfrif natur drawsbynciol y manteision sy'n deillio o'n gwaith yn y maes hwn.

Mae ein [Cynllun Corfforaethol 2014 - 2018](#) yn ein hymrwymo i wneud y canlynol:

- Sicrhau ein bod yn integreiddio'r cyfleoedd hamdden rydym yn eu cynnig ar y tir gyda darparwyr eraill, gan ategu eu harlwy hwy yn hytrach na chystadlu yn eu herbyn;
- Parhau i gyflawni ein rhwymedigaethau er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y cyhoedd yn ein coedwigoedd, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a'r amddiffynfeydd llifogydd a reolir gennym
- Adeiladu ar y gwaith a wnawn eisoes mewn ardaloedd trefol er mwyn sicrhau bod mannau gwyrdd yn asedau gwerthfawr ar gyfer ein trefi a'n dinasoedd;
- Gweithio'n agosach gyda chymunedau, gan ganolbwyntio ein hymdrechion ar y cymunedau mwyaf difreintiedig;
- Gweithio gydag eraill er mwyn nodi cyfleoedd busnes a chyfleoedd swyddi newydd, yn enwedig mewn ardaloedd dan anfantais, a thyfu ein hincwm er mwyn ailfuddsoddi yn ein blaenoriaethau pennaf;
- Sicrhau bod ein gwaith yn cynnig y manteision economaidd mwyaf posibl, gan ganolbwyntio'n benodol ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Mae'n hanfodol bod y cyfleoedd a gynigir gennym, neu'r rheini rydym yn helpu eraill i'w cynnig, mor gynhwysol â phosibl ac yn ystyried pobl ar wahanol adeg o'u bywyd, pobl o oedran gwahanol, pobl o wahanol hil neu ffydd, pobl ag anableddau a phobl ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig eraill a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

<sup>10</sup> [Arolwg Ymwelwyr Cymru 2013](#) Llywodraeth Cymru 2013

<sup>11</sup> Forest Research (2012) Economic benefits of greenspace A critical assessment of evidence of net economic benefits

<sup>12</sup> Forest Research (2012) Economic benefits of greenspace A critical assessment of evidence of net economic benefits

<sup>13</sup> Valuing Wales' National Parks, Arup Consulting, 2013



Rydym am ddarparu ar gyfer amrywiaeth eang o bobl a chynnig cyfleoedd i'r cymunedau a wasanaethir gennym. Fodd bynnag, yn sgil anghydraddoldebau mewn lefelau cyfranogi ac ystodau cyfranogi a'r manteision a geir yn sgil hynny, hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru dargedu adnoddau at yr ardaloedd a'r bobl lle y ceir y budd mwyaf.

Er mwyn cyflawni hyn, mae gennym dair egwyddor gyffredinol y mae'n rhaid i ni eu hystyried wrth wneud penderfyniadau, sef:

1. Bydd pob darpariaeth hamdden awyr agored a gynigir, a hwylusir neu a ariennir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydymffurfio â'r egwyddorion mynediad lleiaf cyfyngol<sup>14</sup> ac yn cael ei datblygu a'i darparu yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.
2. Byddwn yn alinio ein gwaith er mwyn sicrhau manteision hamdden a mynediad drwy dargedu gofodol, gan ganolbwyntio'n gyntaf ar yr ardaloedd hynny lle y sicrhau'r budd mwyaf i bobl a chymunedau
3. Byddwn yn gweithredu fel sefydliad galluogi, gan weithio gyda phartneriaid a phobl eraill i hwyluso gweithgareddau hamdden a mynediad awyr agored ar ein tir ein hunain ac oddi arno



## 2. Sicrhau Canlyniadau

### Beth rydym am ei gyflawni?

Nod cyffredinol y Cynllun Galluogi hwn yw sicrhau, yng Nghymru, bod:

**Mwy o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored yn fwy aml ac yn cael budd ohonynt**

### Pam ein bod am wneud hyn?

Rydym am wneud hyn er mwyn sicrhau'r manteision canlynol:

- Cynyddu gwerthfawrogiad a gofal pobl o'r amgylchedd
- Gwella tegwch a chydlyniant cymdeithasol ymhlith pobl a chymunedau

<sup>14</sup> Wrth ymgymryd â gwaith mynediad, mae rheolwyr cefn gwlad yn gwneud penderfyniadau ynghylch sut y gall yr hyn a ddarperir ganddynt gael ei ddefnyddio gan wahanol ymwelwyr. Mae'r safonau a'r broses mynediad lleiaf cyfyngol yn eu helpu i wneud dewisiadau sy'n sicrhau gwell hygyrchedd i bawb.

- Cynyddu manteision economaidd cyfleoedd hamdden i Gymru
- Gwella iechyd a lles pobl

### Sut y byddwn yn cyflawni ein nod?

Byddwn yn cyflawni hyn drwy sicrhau'r canlynol:

1. Bod cyfleoedd mynediad yn cael eu darparu a'u gwella sy'n diwallu anghenion pobl o ran mwynhau gweithgareddau hamdden awyr agored yn y ffordd orau
2. Bod gwybodaeth hyrwyddol ac ymgysylltu am fynediad i gyfleoedd hamdden ar gael yn eang mewn fformatau priodol
3. Bod gan ddefnyddwyr hamdden ddealltwriaeth well o'r ffordd y dylent ymddwyn yn gyfrifol yn yr amgylchedd naturiol
4. Bod cynllunio effeithiol ar gyfer defnyddio a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy at ddibenion hamdden yn cael ei ymgorffori yn ein gwaith
5. Bod dulliau effeithiol o sicrhau manteision gweithgareddau hamdden awyr agored yn cael eu datblygu a'u hymgorffori yn ein gwaith



### 2a. Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Gallwn fesur lefelau cyfranogiad pobl mewn gweithgareddau hamdden drwy Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru. Gallwn hefyd fesur rhai o fanteision y cyfranogiad hwnnw.

Y sefyllfa bresennol yw bod cyfrannau uchel o'r boblogaeth oedolion yng Nghymru wedi ymweld â'r awyr agored yn 2011 gyda 95% ohonynt ar gyfartaledd yn ymweld yn ystod y 12 mis diwethaf ac 88% yn ymweld yn y pedair wythnos cyn y cyfweiliad. Mae hyn yn seiliedig ar gofnodi cyfranogiad mewn amrywiaeth eang iawn o weithgareddau awyr agored. Mae'r canlyniadau hyn yn debyg i gyfran yr ymweliadau a gofnodwyd yn arolwg 2008.

Yn ystod 2011, cofnodwyd amrywiadau yn nifer yr ymweliadau a wnaed (naill ai yn ystod y pedair wythnos diwethaf neu'r 12 mis diwethaf) yn ôl grwpiau oedran gwahanol. Yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd 76% o bobl 75 oed a throsodd wedi ymweld â'r awyr agored o gymharu â 98% o bobl 74 ac iau. Cofnodwyd amrywiadau hefyd yn ôl p'un a oedd gan ymatebwyr salwch/anabledd hirdymor ai peidio (87% gyda, 97% heb), cymwysterau academaidd (97% gyda, 82% heb) a mynediad i gar (96% gyda, 83% heb). Cofnodwyd amrywiadau tebyg yn arolwg 2008.

Cerdded oedd y gweithgarwch a wnaethpwyd amlaf yn 2011, yn enwedig o ran nifer yr ymweliadau a wnaed yn y pedair wythnos diwethaf (ar 84% o ymweliadau). Yn 2011,



cerdded oedd y prif weithgarwch unigol a wnaed mewn 62% o ymweliadau, sy'n gyfran o gymharu ag arolwg 2008 (66%0).

Roedd tua chwarter yr oedolion (27%) wedi ymweld â'r awyr agored yn 'aml' yn seiliedig ar gyfartaledd o 21 o ymweliadau neu fwy yn ystod y pedair wythnos diwethaf. Roedd amlder y cyfranogiad a gofnodwyd yn debyg yn 2008 ac yn 2011.

Roedd y rheini nad oeddent wedi mynd ar ymweliadau yn ystod y 12 mis diwethaf yn 2011 yn debygol o nodi rhwystrau iechyd corfforol gan gynnwys anableddau (29%), materion iechyd eraill (27%) a henaint (14%) fel rhesymau dros beidio â chyfranogi. Fodd bynnag, nodwyd y ffactorau hyn yn llai aml mewn perthynas â rhesymau dros beidio â mynd ar ymweliadau yn ystod y pedair wythnos diwethaf, gyda phrinder amser (31%) yn fwy tebygol o gyfyngu ar yr ymweliadau a wnaed yn ystod y cyfnod byrrach hwn.

Mae'r dangosydd yn ein Cynllun Corfforaethol sy'n nodi canran y bobl sy'n defnyddio'r awyr agored ar gyfer yr isafswm lefelau o weithgarwch corfforol a gynghorir sydd eu hangen ar gyfer bywyd iach yn dangos y canlynol:



Wrth gymharu canlyniadau Arolygon Hamdden Awyr Agored Cymru 2008 a 2011, gwelir cynnydd sylweddol<sup>15</sup> yng nghanran yr oedolion sydd wedi ymgymryd â'r lefel ofynnol o weithgarwch corfforol drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored yng Nghymru. Yn 2008, cyflawnodd 29% y targed gofynnol o 150 o funudau o weithgarwch corfforol cymedrol neu ddwys yr wythnos. Roedd y ganran hon wedi cynyddu'n sylweddol i 32% o oedolion erbyn 2011 (mae hyn yn gyfystyr â chynnydd o tua 75,000 o bobl).

Mae'r canlyniadau'n dangos bod cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden awyr agored yn helpu pobl i 'droi'r cornel' a chynyddu eu lefelau gweithgarwch corfforol a, thrwy hynny, wella eu hiechyd. Profwyd bod cynnydd mewn gweithgarwch corfforol yn lleihau gordewdra, diabetes, clefyd coronaidd y galon, a rhai mathau o ganser.

Fodd bynnag:

<sup>15</sup> Mae'r ffigur o 3% yn ystadegolbwysig gan ei fod yn ddigon mawr i gynrychioli cynnydd gwirioneddol a mesuradwy mewn gweithgarwch corfforol ar lefel y boblogaeth ac nid yw'n seiliedig ar ffactorau ar hap

- Mae disgwyliad oes iach yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru (o 57.1 o flynyddoedd ym Mlaenau Gwent i 68.2 o flynyddoedd yn Sir Fynwy).
- Mae mwyafrif y bobl sy'n byw yng Nghymru yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored yn achlysurol ond mae galw mawr i wneud hynny'n fwy aml.
- Mae'r gweithgareddau y mae pobl yn cymryd rhan ynddynt yn dod yn fwy amrywiol.
- Mae pobl yn teithio llai o bellter ac mae'r defnydd o geir, hyd yn oed ar gyfer y teithiau byrion hyn, ar gynydd.
- Mae tua 30% o'r rheini sy'n ymweld â Chymru yn cymryd rhan mewn gweithgaredd awyr agored yn ystod eu hymweliad.



### 3. Ein ffocws dros y pum mlynedd nesaf

Dros y pum mlynedd nesaf, mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar sicrhau ein bod yn cyflwyno manteision i'r bobl a'r manau hynny a fydd yn elwa fwyaf. Mae angen i ni sicrhau bod ein gweithgareddau yn helpu i gyflawni ein nod cyffredinol, sef bod mwy o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored yn fwy aml.

Mae'r gweithgareddau a all helpu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn canolbwyntio ar un neu fwy o'r pwyntiau isod:

- Cyswllt â natur sy'n arwain at fwy o ofal am yr amgylchedd a mwy o ymddygiad cyfrifol
- Darparu cyfleoedd mynediad a hamdden sy'n diwallu anghenion pobl yn y ffordd orau (y peth cywir yn y man cywir)
- Cynhyrchion a chyfleoedd eiconig, sydd wedi'u hyrwyddo a'u marchnata'n dda (e.e. Llwybr Arfordir Cymru, Llwybrau Cenedlaethol, ein canolfannau ymwelwyr a'n Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol)
- Rhaglenni hamdden awyr agored sy'n annog 'mwynhad, hyder a gallu' (e.e. dull Coed Actif)
- Gweithio gydag eraill a thrwyddynt er mwyn datblygu a hyrwyddo mwynhau'r awyr agored mewn ffordd gyfrifol
- Helpu pobl ifanc i ddatblygu arferion iach, egniol
- Gwybodaeth a deunydd hyrwyddo sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion y gynulleidfa, yn enwedig mewn perthynas â'n marchnadoedd â blaenoriaeth

- Gwaith partneriaeth a gwaith integredig, gan gynnwys darparu ar y cyd ag eraill a thrwyddt
- Cynnwys cymunedau yn y gwaith a wnawn ar fynediad i gyfleoedd hamdden (e.e. dull Coetiroedd a Chi/Mynediad), gan dargedu ein cymunedau mwyaf diffreintiedig
- Galluogi twf parhaus a chyflogaeth o weithgareddau hamdden awyr agored, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ein hardaloedd mwyaf economaidd ddifreintiedig.
- Cefnogi'r gwaith o hyfforddi arweinwyr lleol a phobl eraill sy'n gweithio gyda chymunedau i fanteisio ar gyfleoedd yn yr awyr agored yn eu gwaith (e.e. dull Dewch Allan o weithredu)
- Gwaith cynllunio strategol o ran mynediad i gyfleoedd hamdden, wedi'i ategu gan adnoddau penodol (e.e. cefnogi Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Awdurdodau Lleol)

Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu Strategol Hamdden a Mynediad Awyr Agored sy'n nodi blaenoriaethau a fydd yn ein helpu i gynllunio a chyflawni'r Cynllun Galluogi. Bydd Cynlluniau Cyflawni a ddatblygwyd ar lefel Cyfarwyddiaeth ar draws y sefydliad yn darparu rhaglen waith fanylach sydd wedi'i hanelu at gyflawni ein nod a'r manteision cysylltiedig.

#### 4. Cydweithio ag eraill

Mae rôl Cyfoeth Naturiol Cymru fel sefydliad galluogi yn allweddol i'r Cynllun Galluogi hwn: bydd hwyluso ac annog eraill a gweithio gyda'n partneriaid yn rhan greiddiol o'n gwaith. Fel rhan o'n gwaith, byddwn yn helpu eraill i ddarparu os mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny, ar y tir a reolir gennym neu oddi arno. Er mwyn parhau i wella'r sefyllfa o ran y dangosydd yn ein Cynllun Corfforaethol a sicrhau'r manteision cysylltiedig a geisiwn, bydd angen i ni gydlynu ac integreiddio ein gwaith gydag amrywiaeth o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn ogystal â chymunedau ledled Cymru. Mae angen i'r gwaith hwn fynd rhagddo ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Bydd ein rôl fel sefydliad galluogi, yn hwyluso ac yn helpu eraill a phartneriaid i gyflawni lle maent yn y sefyllfa orau i wneud hynny, yn allweddol i Cyfoeth Naturiol Cymru.

#### 5. Monitro a gwerthuso

Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso'r Cynllun Galluogi hwn a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig, gan ddefnyddio dull atebolrwydd o weithredu yn seiliedig ar ganlyniadau (RBA). Mae'r dull hwn yn cynnwys nodi bylchau mewn data a thystiolaeth ac awgrymu ffyrdd o'u llenwi.

Mae Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau yn system rheoli perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a ddefnyddir i wella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cymuned. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio'r dull gweithredu hwn ym mhob rhan o'r sefydliad.

Os ydym yn mynd i gydweithio â phartneriaid i gyflawni canlyniadau a rennir, rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni ddatblygu system gyson ar gyfer monitro a rheoli ein cynnydd. Yn yr hirdymor, bydd y dangosyddion lefel uchel yn nodi a ydym yn cyflawni ein canlyniadau. Fodd bynnag, yn y byrdymor, byddwn yn monitro dangosyddion penodol i ganfod a yw ein gwaith yn cael effaith. Yn ei hanfod, diben RBA yw gofyn a

oes unrhyw un mewn sefyllfa well o ganlyniad i'r gwasanaethau a ddarperir gennym a sicrhau bod ein system rheoli perfformiad yn parhau i ganolbwyntio ar y cwestiwn hwn. Os nad ydym yn gwneud i'n dinasyddion a'n cymunedau fod yn well eu byd, yna mae'n rhaid i ni gwestiynu effaith a phriodoldeb ein gwasanaethau.

Nodir manylion ein dull RBA dangosol mewn dogfen ategol: *Outdoor Recreation and Access Enabling Plan 2015-2020 – Indicative Results Based Accounting.*



## 6. Adolygu ein gwaith

Yn ogystal â monitro a gwerthuso cynnydd camau gweithredu drwy ein Cynllun Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau, byddwn yn adolygu'r Cynllun Galluogi hwn yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn addas at y diben. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried Bil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Bil yr Amgylchedd sydd ar ddod.

Byddwn yn mynd ati i integreiddio'r Cynllun Galluogi hwn yn ein dull o reoli adnoddau dynol, gan sicrhau bod ein dulliau cyfathrebu yn berthnasol ac yn drawsbynciol. Mae ein Cynllun Galluogi Cyfathrebu yn nodi sut y byddwn yn gwneud hyn. Byddwn hefyd yn cyfathrebu â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid yn rheolaidd drwy sianeli fel y Fforwm Mynediad Cenedlaethol, Fforymau Mynediad Lleol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ein concordat a deiliaid cytundebau eraill, a thrwy ein gwefan.

## Atodiad 1: Cyfeiriadau

Ysgol Fusnes Caerdydd (2011) *The economic impact of walking and hill walking in Wales*

Ysgol Fusnes Caerdydd (2012) *The Economic Impact of Wales Coast Path Visitor Spending on Wales*

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2006) *Economic benefit to business of the Welsh National Trails*

Forest Research (2008) *Cydcoed Evaluation Report*, Forest Research, Farnham

Forest Research (2012) *Economic benefits of greenspace A critical assessment of evidence of net economic benefits*. Forest Research, Farnham.

Van den Berg et al (2010) *Preference for Nature in Urbanized Societies* yn Forest

Research (2010) *Benefits of Green Infrastructure*, Forest Research, Farnham.

Cyfoeth Naturiol Cymru (2013) *Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2011: Adroddiad Llawn*

Cyfoeth Naturiol Cymru (2013) *Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2011: Adroddiad Cryno*

Asiantaeth yr Amgylchedd (2007) *The economic impact of freshwater angling in England & Wales*

Llywodraeth Cymru (2009) *Dringo'n uwch: creu Cymru egniol*. Caerdydd

Llywodraeth Cymru (2012) *Arolwg Cyfranogi mewn Chwaraeon Dŵr*. Caerdydd

Llywodraeth Cymru (2013) [Arolwg Ymwelwyr Cymru 2013](#) (ar-lein yn unig)

Llywodraeth Cymru (2013) *Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013*. Caerdydd.